



Ysgol Glan Morfa

CYLCHLYTHYR NEWSLETTER



YN Y RHIFYN HWN

- DIWRNODAU HMS 2026-27
- ETHOLIADAU LLYWODRAETHWYR
- BLAENORIAETHAU'R YSGOL 2026-27
- PARCIO
- AELODAETH YR URDD
- DYDDIADAU TYMOR YR HYDREF 2026


IN THIS ISSUE

- INSET DAYS 2026-27
- GOVERNOR ELECTIONS
- SCHOOL IMPROVEMENT PRIORITIES 2026-27
- PARKING
- URDD MEMBERSHIP
- AUTUMN TERM 2026 DATES

DIWRNODAU HMS

2026-27
1.9.26
2.9.26
25.9.26
16.10.26
22.2.27
30.4.27

Hawl yr Wythnos / Right of the Week



INSET DAYS

2026-27
1.9.26
2.9.26
25.9.26
16.10.26
22.2.27
30.4.27

Gyda 'n Gilydd Fe Lwyddwn | Together We Will Succeed



Ysgol Glan Morfa

BLAENORIAETHAU'R YSGOL 2026-27

SCHOOL PRIORITIES 2026-27

Blaenoriaeth 1

Sut gallwn gryfhau datblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy gyflwyno cynllun ffoneg newydd effeithiol ac aillstrwythuro'r broses ysgrifennu i sicrhau cynnydd clir, cyson a safon uchel ar draws yr ysgol?

(How can we strengthen pupils' linguistic development in Welsh and English by introducing an effective new phonics scheme and restructuring the writing process to ensure clear, consistent progress and a high standard across the school?)



Fframwaith
Patrymau Iaith
Craidd i'r Sector
Cyfrwng Gymraeg

Moonster
Phonics



Blaenoriaeth 2

Sut gallwn addasu ac ymestyn ein cynlluniau Mathemateg i ddatblygu sgiliau mathemategol elfennol disgyblion drwy gyflwyno dulliau addysgu cyson, gwirio cynnydd yn rheolaidd, gwella adnoddau a chynnig profiadau dysgu ystyrlon?

How can we adapt and extend our Mathematics plans to develop pupils' elementary mathematical skills by introducing consistent teaching methods, regularly checking progress, improving resources and offering meaningful learning experiences?



Mathemateg a
Rhifedd
Cynllun Cwstwr
Bro Edern



Blaenoriaeth 3

Sut gallwn ddatblygu profiadau celfyddydol mynegiannol disgyblion drwy ehangu cyfleoedd mewn drama, cerddoriaeth aawns, a'u hymgorffori'n effeithiol ar draws y cwricwlwm i gryfhau sgiliau creadigol a chyfathrebu?

How can we develop pupils' expressive artistic experiences by expanding opportunities in drama, music and dance, and incorporate them effectively across the curriculum to strengthen creative and communication skills?





BLAENORIAETHAU'R YSGOL 2026-27
SCHOOL PRIORITIES 2026-27

Blaenoriaeth 4

Sut gallwn ddatblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy sefydlu canolfan awtistiaeth lwyddiannus, addasu ein hamgylcheddau dysgu a chryfhau dealltwriaeth staff er mwyn sicrhau safonau uchel a chynnydd cyson i bob disgybl?

How can we develop effective provision for Additional Learning Needs by establishing a successful autism centre, adapting our learning environments and strengthening staff understanding in order to ensure high standards and consistent progress for all pupils?



**Autism
Education
Trust**



Blaenoriaeth 5

I ba raddau mae datblygu'r amgylchedd dysgu mewnol ac allanol a chynyddu cyfleoedd dysgu awyr agored yn gwella annibyniaeth, gwydnwch a medrau disgyblion ar draws yr ysgol?

To what extent does developing the internal and external learning environment and increasing outdoor learning opportunities improve pupils' independence, resilience and skills across the school?



**Froebel's
Theory
of Play**





Ysgol Glan Morfa

NEWYDDION NEWS

Etholiad Rhiant Lywodraethwyr

Cofiwch bledleisio dros yr un ymgeisydd ar gyfer y rol wag hon. Anfonwch eich ffurflenni yn ol i'r ysgol yn yr amlenni gwag erbyn 12:00 ar y 25.9.26. Diolch am eich cefnogaeth a phob lwc i'r holl ymgeiswyr.

Parent Governor Elections

Remember to vote for 1 candidate for this role. Please send it back to school by 12:00pm on the 25.9.26. Thank you for your cooperation and good luck to all candidates.



Nosweithiau Cyfarch a Chroeso

Cofiwch fod ein Nosweithiau Cyfarch a Chroeso yn cael eu cynnal dydd Mawrth a dydd Mercher nesaf. Mae'r dyddiadau a'r amseroedd ar waelod y cylchlythyr.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu cynifer ohonoch ag sy'n gallu dod, ac i'ch cyfleu i gwrdd ag athro eich plentyn a chael mwy o wybodaeth am eu dosbarth eleni. Mae'n gyfle gwych i adeiladu perthynas ac i ddeall y dysgu sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth.

Welcome and Information Evening

Please remember that our Meet and Greet evenings will take place next Tuesday and Wednesday. The dates and times can be found at the bottom of the newsletter.

We look forward to welcoming as many of you as possible. It's a valuable opportunity to meet your child's teacher and to receive further information about their class for this year. These evenings help strengthen home-school partnerships and give insight into classroom learning.



Information Event

Hosted by ND Community Connectors
Sponsored by The Open University Wales
Caring for Carers Cymru

For parents/carers of children & young people
on the Neurodevelopmental Service waiting list
or with an Autism/ADHD diagnosis in Cardiff

Information stalls from locally based services and support
that can be accessed whilst waiting for an assessment or
post diagnosis.

Supported by organisations across Local authority,
Education and Third Sector/Charity.

Location: Glenwood Church & Wellbeing Space
Circle Way West, Llanedeyrn CF23 6UW

Date: Monday, 19th October 2026

Time: 10:00 - 11:30am

For more information & to book a place via
Eventbrite, please use the QR code or this link:
<https://autismadhdsservicesandsupportCardiff.eventbrite.co.uk>





Sesiwn Wybodaeth

Wedi'i gynnal gan ND Cysylltwyr Cymunedol CBC
Noddwyd gan Y Brifysgol Agored
yng Nghymru Gofalu am Ofalwyr Cymru

I rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc ar restr aros y
Gwasanaeth Niwroddatblygiadol neu sydd â
diagnosis o Awtistiaeth/ADHD yng Nghaerdydd

Stondinau gwybodaeth gan wasanaethau a chymorth lleol
y gellir cael mynediad atynt wrth aros am asesiad neu ar ôl
diagnosis.

Wedi'i gefnogi gan sefydliadau ar draws awdurdod lleol,
addysg a'r Trydydd Sector/Elusen.

Lleoliad: Glenwood Church & Wellbeing Space
Circle Way West, Llanedeyrn CF23 6UW

Dyddiad: Dydd Llun, 19fed o Hydref

Amser: 10:00yb - 11:30yb

Mae'r sesiwn yn rhad ac am ddim ond dylech gadw
lle drwy Eventbrite gan ddefnyddio'r cod QR neu'r
ddolen hon: [SesiwnWybodaeth](#)





Ysgol Glan Morfa

NEWYDDION NEWS



WYTHNOS DATHLU'R DYSGU
LEARNING CELEBRATION WEEK

Gweithdai Rhieni a Disgyblion

Yn ystod y tymor hwn, hoffem eich gwahodd i gymryd rhan yn ein sesiynau "Dathlu'r Dysgu". Mae'r sesiynau hyn yn gyfle gwyh i chi a'ch plentyn gydweithio, mwynhau gweithgareddau gyda'ch gilydd, a chael cipolwg ar yr hyn y mae eich plentyn wedi bod yn ei ddysgu yn yr ysgol.

Ceir isod y dyddiadau ar gyfer y sesiynau. Gobeithiwn y bydd cymaint ohonoch â phosibl yn gallu ymuno â ni. Bydd dyddiadau ar gyfer Blynnyddoedd 5 a 6 yn cael eu rhannu cyn gynted â phosibl.

Parent & Pupil Workshops

During this term, we would like to invite you to take part in our Learning Celebration sessions. These workshops provide a wonderful opportunity for you and your child to work together, enjoy activities as a team, and gain an insight into what your child has been learning in school.

The dates for the sessions are listed below. We hope that as many families as possible will be able to attend. Dates for Years 5 and 6 will be shared with you as soon as they are confirmed.

Gweithdy Rhieni a Disgyblion Blwyddyn 1	Year 1 Parent and Pupil Workshop	13.10.26	1:45pm
Sioe Ffasiynau Disgyblion Blwyddyn 2 - Rhieni mewn	Year 2 Fashion Show - Parents Invited	22.10.26	1:45
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Blynnyddoedd 3 a 4	Years 3 & 4 Parent and Pupil Workshop	23.10.26	1:45pm
Meithrin - Gweithdy yn y Goedlan	Nursery - Forrest Area Workshop	23.10.26	Rhieni'r Bore / Morning Parents 10.00am & Rhieni'r Prynhawn / Afternoon Parents 1:30pm
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Dosbarth Lleu (Mrs McGuire-Morris)	Lleu Reception Class (Mrs McGuire-Morris) Parent and Pupil Workshop	24.11.26	09:00
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Dosbarth Blodeuwedd (Miss Jones)	Blodeuwedd Reception Class (Miss Jones) Parent and Pupil Workshop	25.11.26	09:00
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Blwyddyn 5	Year 5 Parent and Pupil Workshop	I'w gadarnhau / tbc	
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Blwyddyn 6	Year 6 Parent and Pupil Workshop	I'w gadarnhau / tbc	



Ysgol Glan Morfa

NEWYDDION NEWS



Banc Bwyd Caerdydd

Unwaith eto eleni, rydym yn casglu rhoddion ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Bob blwyddyn rydych wedi cefnogi'r ymgyrch hon yn wych, ac rydym yn hynod ddiolchgar am eich haelioni parhaus. Rwy'n siŵr y byddwch yn cefnogi'r achos pwysig hwn unwaith eto eleni.

Gofynnwn yn garedig i unrhyw gyfraniadau gyrraedd yr ysgol erbyn dydd lau, 15.10.26, er mwyn i ni allu eu trosglwyddo i'r banc bwyd cyn hanner tymor.

Mae rhestr isod o'r eitemau y mae'r banc bwyd yn gofyn amdanynt ar hyn o bryd. Os yn bosibl, gofynnwn yn garedig i chi ganolbwyntio ar roi'r eitemau hyn.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth a'ch caredigrwydd parhaus.

Cardiff Food Bank

Once again this year, we are collecting donations for Cardiff Food Bank. Every year you have supported this campaign generously, and we are extremely grateful for your continued kindness and support. I am sure that you will support this important cause once again this year.

We kindly ask that all donations are brought to school by Thursday, 15.10.26, so that we can deliver them to the food bank before half term.

Below is a list of items that the food bank is currently requesting. If possible, we would be grateful if donations could focus on these items.

Thank you very much for your continued support and generosity.

Food we need

As of 03/09/2026

- | | | |
|--------------------------------|-------------------|-------------------|
| ✓ Chocolate | ✓ Coffee | ✓ Deodorant |
| ✓ Pasta packets (microwavable) | ✓ Sponge puddings | ✓ Squash |
| ✓ Sweets | ✓ Tinned fruit | ✓ Tinned potatoes |
| ✓ Toilet roll | ✓ Tomato sauce | ✓ Toothbrushes |
| ✓ Washing powder | | |



Ysgol Glan Morfa

NEWYDDION NEWS

Oes gyda chi blentyn o dan 3½?

Mae Prosiect Pengwin yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i brofi asesiad newydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn gwella sut rydyn ni'n adnabod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.

Mae'r sesiwn yn chwareus, yn digwydd yn eich cartref, a bydd yn helpu i wneud gwahaniaeth enfawr.

Cymerwch ran. Helpwch i siapio dyfodol Cymru.

Do you have a child under 3½?

Prosiect Pengwin is working with Welsh Government to test a new tool in both English and Welsh, to better identify children's speech, language and communication needs.

The session is playful, takes place at your home, and will help make a huge difference.

Take part. Help shape Wales' future.

Cofrestrwch eich diddordeb. Register interest.

Cyfeirnod Moeseg: Sta-9720 Ethics Ref: Sta-9720



S4C 

GALWAD CASTIO!

C.R.I.W.

WYT TI'N BLENTYN RHWNG 9-12 OED? WYT TI'N LLAWN EJNI, HWYL A DYCHYMYG?

CYMRAG YN ANGENRHEIDIOL DIM ANGEN PROFIAD ACTIO

FFILMIO FIDEO BACH (2 FUNUD AR Y FWYAF) AR DY FFON YN DWEUD:

- 1. PWY WYT TI (CENW AC OED)**
- 2. LLE TI'N BYW**
- 3. DIDDORDEBAU**
- 4. STORI FER**

DYDDIAD CAU: 20/09/2026

This is a casting call for a new S4C children's programme called C.R.I.W., produced by Cwmni Da. They are looking for children aged 9-12 who are full of energy, fun and imagination.

Key points for parents:

- Welsh is essential – children must be confident speaking Welsh.
- No acting experience is needed – they just want enthusiastic children.

What your child needs to do:

- They must record a short video (maximum 2 minutes) on a phone, saying:
- Who they are (name and age)
- Where they live
- Their interests
- A short story (any fun or simple story they want to share)

Deadline:

All videos must be sent in by 20 September 2026.


[Cofrestru Diddordeb / Register Interest](#)



AELODAETH YR URDD URDD MEMBERSHIP

MAE ANGEN I BOB DISGYBL SYDD EISIAU
CYSTADLU YN YR EISTEDDFOD NEU MEWN
CYSTADLAETHAU CHWARAEON FOD WEDI
COFRESTRU AR BORTH YR URDD.


ALL PUPILS WISHING TO COMPETE IN THE
EISTEDDFOD OR ANY SPORTING COMPETITIONS
MUST BE REGISTERED ON THE URDD PORTAL.



Individual Membership
1 membership - £15.50 a year
[Select](#)



Family Membership
3 or more memberships - £30 a year
[Select](#)




Reduced-rate Membership
1 membership - £1 a year
[Learn more](#)



Aelodaeth Unigol
1 aelodaeth - £15.50 y flwyddyn
[Dewis](#)



Aelodaeth Teulu
3 aelodaeth neu fwy - £30 y flwyddyn
[Dewis](#)



Aelodaeth Gostyngol
1 aelodaeth - £1 y flwyddyn
[Dysgu mwy](#)

Croeso nôl!

Mae blwyddyn newydd aelodaeth yr **Urdd** ar agor! Ewch ati i annog plant eich ysgol neu gangen i ymaelodi gyda'r **Urdd** i fanteisio ar yr holl anturiaethau cyffrous sydd ar gael i'n haelodau.

Mae gan ein haelodau fynediad at anturiaethau corfforol, creadigol, cymdeithasol a phersonol, yn cynnwys:

- clybiau a gweithgareddau yn dy ardal
- cystadlaethau Eisteddfod yr **Urdd**
- digwyddiadau chwaraeon ar draws Cymru
- teithiau cenedlaethol a rhyngwladol
- gwyliau yn ein gwersylloedd - Caerdydd, Llangrannog, Pentre Ifan a Glan-llyn
- cannoedd o brofiadau newydd drwy'r flwyddyn.

Sut i ymaelodi?

Rydym yn annog pob ysgol a changen i hyrwyddo aelodaeth yn uniongyrchol drwy'r Porth.

Bydd hyn yn caniatáu:

- rhieni i dalu'r **Urdd** yn uniongyrchol gan leihau'r angen i chi fel ysgol weinyddu taliadau
- sicrhau fod rhieni yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan yr **Urdd** am weithgareddau
- lleihau'r baich gweinyddol amoch chi fel ysgol/cangen
- byddwch fel ysgol/cangen yn cael mynediad i weld pwy sydd wedi ymaelodi gyda'r **Urdd** er mwyn gweinyddu unrhyw weithgaredd ar ran yr ysgol/cangen.

Gallwch hyrwyddo gwefan aelodaeth yr **Urdd** [urdd.cymru/ymuno](#) drwy eich cychlythyr neu system gyfathrebu gyda rhieni.

Os oes angen diveddaru manylion cyswllt arweinydd cangen eich ysgol neu adran chi neu os oes gennych unrhyw gwestiwn am aelodaeth, cysylltwch â ni: aelodaeth@urdd.org

[Ymuno](#)

Welcome back!

The **Urdd**'s membership for the year is now open! Get the children of your school or branch to join the **Urdd** to take advantage of all the fantastic adventures on offer.

Members have access to a wide range of physical, creative, social and personal adventures, including:

- clubs and activities in your area
- Eisteddfod yr **Urdd** competitions
- sporting events across Wales
- national and international trips
- holidays at our residential centres - Cardiff, Llangrannog, Pentre Ifan and Glan-llyn
- hundreds of new experiences throughout the year.

How to join?

We encourage all schools and branches to promote membership directly by parents through our online portal, Y Porth.

This will allow:

- parents to pay the **Urdd** directly, reducing the need for you as a school to administer payments
- ensure parents receive the latest information from the **Urdd** about activities within the area
- reduce the administrative burden on you as a school/branch
- as a school/branch, you will have access to see who has joined the **Urdd** and administer any activity on behalf of the school/branch.

The **Urdd**'s membership website www.urdd.cymru/join can be promoted through your newsletter or communication system with parents.

If you need to update your branch leader's details or have any questions, contact us: aelodaeth@urdd.org

[Join](#)



CLYBIAU TYMOR YR HYDREF AUTUMN TERM CLUBS



Pob nos Lun
Every Monday
3:00 - 4:00
Blynyddoedd 3-6
Years 3-6

Chwaraeon
**Clwb Aml-Chwaraeon
Glan Morfa
Multi-Sports Club**
B1 / Yr : 2-6

£30
am y bloc
for the block

DYDDIAD / DATE
Dydd Iau / Thursday
17/09/2026 - 10/12/2026

AMSER TIME 15:00-16:00

LOCATION / LLEOLIAD
Ysgol Glan Morfa
Glan Morfa Primary School

RHAID COFRESTRU AR-LEIN / MUST REGISTER ONLINE > gweithgareddau.urdd.cymru

EICH SWYDDOG LLEOL / YOUR LOCAL OFFICER > Seren Richards
Serenrichards@urdd.org
07929717014

@caerdydda'rffro @caerdydda'rffro

Sportswales
Chwaraeon Cymru

Pob nos Iau
Every Thursday
3:00 - 4:00
Blynyddoedd 2-6
Years 2-6
(Cofrestru gyda'r Urdd / Must
register online)



SIARTER IAITH

Helo! Y Cewri Cymreictod ydyn ni!

Rydyn ni wedi cael ein hethol i helpu arwain a dathlu Cymreictod yn ein hysgol, ac rydyn ni'n barod am flwyddyn wych!

Eleni, ein nodau ni yw:

- ★ Annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhobman, nid yn unig yn y dosbarth, ond hefyd ar yr iard, amser cinio, gartref ac yn y gymuned.
- ★ Helpu'r Gymraeg i fod yn rhan naturiol o fywyd yr ysgol bob dydd.
- ★ Ysbrydoli mwyn o bobl i ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg yn y gymuned.

Mae gennym ni lawer o syniadau cyffrous ar y gweill, gan gynnwys heriau, cystadlaethau a digwyddiadau hwyliog i helpu pawb i fwynhau defnyddio'r Gymraeg!

Rydyn ni'n methu aros i rannu ein syniadau a'n llwyddiannau gyda chi drwy gydol y flwyddyn.
Dewch i ni wneud y Gymraeg yn fyw, yn falch ac yn llawn hwy!

Diolch yn fawr,

Y Cewri Cymreictod
Seren, Mia, Ruben, Peggy, Tilly, Jenson, Faye ac Alannah

Hello! We are the Cewri Cymreictod (Welshness Giants!)

We have been chosen to help lead and celebrate Welshness in our school, and we're ready for a fantastic year!

This year, our aims are:

- ★ To encourage everyone to use Welsh everywhere — not just in the classroom, but also on the yard, at lunchtime, at home and in the community.
- ★ To help Welsh become a natural part of everyday school life.
- ★ To inspire more people to use and enjoy Welsh in the community.

We have lots of exciting ideas on the way, including challenges, competitions and fun events to help everyone enjoy using Welsh! We can't wait to share our ideas and successes with you throughout the year.

Let's make Welsh alive, proud and full of fun!

Thank you very much,

Y Cewri Cymreictod
Seren, Mia, Ruben, Peggy, Tilly, Jenson, Faye ac Alannah

Siarter iaith / Welsh Language Charter

Patrwm iaith yr Wythnos / Language Pattern

Mae gen i...? (I have...) Does gen i ddim...(I don't have...)

Her / Challenge

Yn ffodus, mae gen i... (Fortunately, I have...) Yn anffodus, does gen i ddim...(Unfortunately, I don't have...)

Testun Trafod / Discussion Topic

Beth petai dim ceir? (What if there were no cars?)

Cân yr wythnos / Song of the week

Adwaith - Lan y Môr

Idiom yr Wythnos / Idiom of the Week

Yn wên o glust i glust (Smiling from ear to ear)



Siarter iaith
Gwobr Arian



Ysgol Glan Morfa

Y GYMUNED COMMUNITY

Teuluoedd yn Dysgu Gyda'i Gilydd



Dydd Mawrth, 15fed o
Fedi, 9yb

Gweithdy Dysgu Fel Teulu

Enw'r Cwrs: Gwyddonwyr Gwych

Ysgol Glan Morfa

Ar gyfer
rhieni/gofalwyr/mamgu/tadcu
plant Meithrin, Derbyn, BI 1 a 2

- Gweithiwch gyda'ch plentyn yn ystod y Gweithdy cychwynnol yma.
- Dysgwch am weithgareddau hwyl i chi a'ch plentyn
- Cyfle i ofyn cwestiynau a chael mwy o wybodaeth am y cwrs

Cysylltwch â ni
families@cavc.ac.uk



Cofrestrwch eich diddordeb drwy sganio'r cod QR os gwelwch yn dda



Families Learning Together



Tuesday the 15th of
September, 9am

Family Learning Workshop

Course name: Super Scientists

School: Ysgol Glan Morfa

For
parents/carers/grandparents
of children in Nursery,
Reception, Year 1 a 2

Pop in for a tea or coffee and find out more about our Family Learning Course!

- Work with your child during our introductory workshop.
- Learn about fun activities for you and your child
- Ask questions and get more information

Contact us
families@cavc.ac.uk



Please scan the QR code to register your interest





CRHA PTA



CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON
Ysgol Glan Morfa
PTA

Cefnogi ein plant gyda'n gilydd • Supporting our children together

Allech chi sbario ychydig o amser i wneud gwahaniaeth MAWR?

Rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwyr newydd i ymuno â ni!

P'un a allwch chi roi ychydig o amser o bryd i'w gilydd, helpu mewn digwyddiadau, rhannu syniad, rhoi help llaw y tu ôl i'r llenni, neu gymryd mwy o ran - byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Does dim angen bod yn arbenigwr, ac nid oes rhaid i chi ymrwymo i bopeth. Mae pob help llaw yn gwneud gwahaniaeth.

Mae gwirfoddoli gyda'r CRHA yn ffordd wych o:

- Cwrdd â rhieni a gofalwyr eraill
- Cymryd mwy o ran ym mywyd ysgol
- Helpu i greu cyfleoedd hwyliog i'n plant
- Cefnogi codi arian sydd o fudd i'r ysgol
- Bod yn rhan o CRHA cyfeillgar

Chwifrydig, ond ddim yn siŵr beth allwch chi ei gynnig? Mae hynny'n hollol iawn! Dewch i ymuno â ni yn ein dal i fyny nesaf a gallwn sgwrsio am y gwahanol ffyrdd y gallech chi gymryd rhan.

Rydym yn cael cyfarfod dal i fyny hamddenol ar ddydd Mercher 30 Medi 15.15 yn neuadd fach yr ysgol i ddechrau meddwl am ba ddigwyddiadau yr hoffem eu gwneud eleni.

Rydym hefyd wedi lansio gwefan PTA newydd - eich lle un stop ar gyfer popeth PTA! Cymerwch olwg i weld beth rydyn ni wedi bod yn ei wneud dros y misoedd diwethaf: <https://www.ysgolglanmorfa.co.uk/en/about/>

Galwch draw i ddweud helo, cael paned a rhannu unrhyw syniadau. Mae croeso mawr i wynebau newydd bob amser!

Diolch yn fawr!
CRHA Glan Morfa

Could you spare a little time to make a BIG difference?

We're looking for new volunteers to join us!

Whether you can give a little time occasionally, help out at events, share an idea, lend a hand behind the scenes, or get more involved - we'd LOVE to hear from you. There's no need to be an expert, and you don't have to commit to everything. Every helping hand makes a difference.

- Volunteering with the PTA is a great way to:
- Meet other parents and carers
- Get more involved in school life
- Help create fun opportunities for our children
- Support fundraising that benefits the school
- Be part of a friendly PTA

Curious, but not sure what you can offer? That's absolutely fine! Come and join us at our next catch up and we can chat about the different ways you could get involved.

We are having a relaxed catch up meeting on Wednesday 30th September 15.15 in the little school hall to start thinking about what events we'd like to do this year. We've also launched a new PTA website — your one-stop place for all things PTA! Take a look to see what we've been up to over the past few months: <https://www.ysgolglanmorfa.co.uk/en/about/>

Please pop along to say hello, have a cuppa and share any ideas. New faces are always very welcome!

Diolch yn fawr!

Friends of Ysgol Glan Morfa – YGM PTA

Gyda 'n Gilydd Fe Lwyddwn | Together We Will Succeed

OUR SCHOOL ♥ OUR CHILDREN ♥ OUR COMMUNITY

Why Join Our School PTA?

We're looking for new volunteers and fresh ideas!!

- Make New Friends**
And build relationships within the community and beyond!
- Every Little Bit Helps**
You don't need to sign your life away - volunteer when you can, at events you love or value the most
- Develop new skills**
You can sign up as a committee member, become an officer or be a general volunteer
- Fundraising**
Help us to raise much needed funds to give back to the school
- School Experience**
Help improve our pupils' primary school experience
- Have Your Say!**
Help us to decide what PTA funds are spent on in the school

PTA



CALENDR

Medi / September

Noson Agored Bro Edern - Rhieni/Disgyblion Blynnyddoedd 5 a 6	Bro Edern Open Evening - Parents & Pupils Years 5 and 6	17.9.26	16:00 - 18:30
Cyfarfodydd Croeso a Chyfarch Blynnyddoedd 3-6 Ysgol Glan Morfa(i rieni)	Years 3-6 Welcome and Information Evening (for parents) Ysgol Glan Morfa	22.9.26	15:00 - 16:00
Cyfarfodydd Croeso a Chyfarch Derbyn, Meithrin, Bl 1 a 2 - Rhieni	Nursery, Reception, Year 1 and 2 Welcome and Information Evening for Parents	23.9.26	15:00 - 16:00
Diwrnod Pontio 1 i Flwyddyn 6 ym Mro Edern - Celfyddydau Rhieni i ollwng plant yn Mro Edern.	Year 6 Transition Day 1 with Bro Edern - Creative Arts parents to drop off @ Bro Edern	23.9.26	Trwy'r dydd / All day
Blynnyddoedd 5 a 6 - Ymweliad a Llong "Logos Hope" ym Mae Caerdydd	Years 5 & 6 - Visiting the "Logos Hope" Ship in Cardiff Bay	24.9.26	Bore / Morning
Diwrnod HMS	INSET Day	25.9.26	Trwy'r dydd / All day
Hyfforddiant Kerbcraft (Croesi'r Ffordd) Blynnyddoedd 1 a 2	Kerbcraft Child Pedestrian Training for Years 1 and 2.	29.9.26	Trwy'r dydd / All day
Cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon	PTA Meeting	30.9.26	3:00

CALENDR

Hydref / October

Pel-droed yr Urdd - Merched Blynnyddoedd 5 a 6 (rhaid bod yn aelodau)	Girls Urdd Football - Year 5 and 6 (must be members)	1.10.26	Trwy'r dydd / All day
Tim Deintydd - Meithrin. Derbyn, Blynnyddoedd 1 a 2.	Fluoride Varnish - Meithrin, Derbyn, Bl 1 a 2	1.10.26	Trwy'r dydd / All day
Hyfforddiant Kerbcraft (Croesi'r Ffordd) Blynnyddoedd 1 a 2	Kerbcraft Child Pedestrian Training for Years 1 and 2.	6.10.26	Trwy'r dydd / All day
Pel-droed yr Urdd - Cymysg Blynnyddoedd 3 a 4 (rhaid bod yn aelodau)	Mixed Urdd Football - Years 3 and 4 (must be members)	8.10.26	Trwy'r dydd / All day
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Blwyddyn 1	Year 1 Parent and Pupil Workshop	13.10.26	1:45pm
CogUrdd a PobUrdd Blynnyddoedd 4,5 a 6 - Rownd Ysgol	CogUrdd & PobUrdd Years 4,5 and 6 - School Round	13.10.26	Bore / Morning
Diwrnod Shwmae Sumae a Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth - Pawb i wisgo coch	Shwmae Sumae Day & Show Racism the Red Card - All pupils to wear red.	15.10.26	Trwy'r dydd / All day
Diwrnod olaf i gasgliadau Banc Bwyd	Last day for Foodbank donations	15.10.26	Trwy'r dydd / All day
Diwrnod HMS	INSET Day	16.10.26	Trwy'r dydd / All day
Noson Rieni & Ffair Lyfrau Derbyn- Bl 6	Parents Evening & Book Fair Reception - Year 6	20.10.26	15:00 - 18:00
Noson Rieni & Ffair Lyfrau Derbyn- Bl 6	Parents Evening & Book Fair Reception - Year 6	21.10.26	15:00 - 18:00
Sioe Ffasiynau Disgyblion Blwyddyn 2 - Rhieni mewn	Year 2 Fashion Show - Parents Invited	22.10.26	1:45
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Blynnyddoedd 3 a 4	Years 3 & 4 Parent and Pupil Workshop	23.10.26	1:45pm
Rhieni Meithrin - Gweithdy yn y Goedlan	Nursery Parents - Forrest Area Workshop	23.10.26	Rhieni'r Bore / Morning Parents 10.00am & Rhieni'r Prynhawn / Afternoon Parents 1:30pm

Hanner Tymor / Half Term



CALENDR

Tachwedd / November

Colorfoto - Lluniau unigol	Colorfoto - Individual Photographs	2.11.26	Trwy'r dydd / All day
Pel-droed yr Urdd - Bechgyn Blynnyddoedd 5 a 6 (rhaid bod yn aelodau)	Boys Urdd Football - Year 5 and 6 (must be members)	5.11.26	Trwy'r dydd / All day
Taith Bl 6 i Langrannog	Year 6 Visit to Llangrannog	11-13.11.26	Trwy'r dydd / All day
Gweithdy Menter a Busnes Blynnyddoedd 3 a 4	Year 3 & 4 Business and Venture Workshop	12.11.26	Bore / Morning
Wythnos Gwrth Fwlio Anti Bullying Week 16-20fed / 16th to 20th			
Blwyddyn 6 - Criw Craff	Year 6 - Crucial Crew	18.11.26	Bore / Morning
Rownd Derfynol Rhanbarthol Poburdd/Cogurdd	Cogurdd and Poburdd Regional Final	19.11.26	15:00 - 17:00
Diwrnod Plant Mewn Angen - Gwisgo dillad eich hunain/unrhywbeth chi eisiau.	Children in Need Day - wear informal clothes/anything you like	20.11.26	Trwy'r Dydd / All day
Wythnos Aml-Ddiwylliannol Multi-Cultural Week 23-27 Tachwedd/November			
Pantomein Cymraeg Cwmni Mega - Neuadd Goffa, Y Bari - Disgyblion blynnyddoedd 3-6	Cwmni Mega - Welsh Pantomine - Barry Memorial Hall - Pupils Years 3-6	24.11.26	11:30 - 14:30
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Derbyn Lleu - Mrs McGuire-Morris	Parent and Child Workshop - Reception Lleu - Mrs McGuire-Morris	24.11.26	09:00
Gweithdy Rhieni a Disgyblion Derbyn Blodeuwedd - Miss P Jones	Parent and Child Workshop - Reception Blodeuwedd- Miss P Jones	25.11.26	09:00
Blwyddyn 6 - Pontio Bro Edern	Year 6 - Bro Edern Transition	26.11.26	Trwy'r Dydd / All day



CALENDR

Rhagfyr / December

Cyngerdd Nadolig Blynyddoedd 1 a 2	Years 1 & 2 Christmas Concert	8.12.26	1:15
Diwrnod Siwmpwr Nadolig	Christmas Jumper Day	10.12.26	Trwy'r Dydd / All Day
Sesiwn Nadolig Bore Feithrin - Rhieni i fynychu	Nursery Christmas Morning - Parents to attend	10.12.26	09:00
Sesiwn Nadolig Prynhawn y Feithrin - Rhieni i fynychu	Nursery Afternoon Christmas Session - Parents to attend	10.12.26	13:30
Diwrnod olaf y tymor	Last day of term	18.12.26	Trwy'r Dydd / All Day